# Ymarfer a pholisi sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/ymarfer-a-pholisi-gofal-cymdeithasol-syn-seiliedig-ar-arloesi-ymchwil-a-data-or-radd-flaenaf-a-mathau-eraill-o-dystiolaeth am y fersiwn diweddaraf.

**Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data o'r radd flaenaf, a mathau eraill o dystiolaeth.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni wedi parhau i arwain y gwaith o gwmpas y:

- **dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol**
- **porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru**
- **Strategaeth ymchwil a datblygu mewn gofal cymdeithasol**.

Rydyn ni hefyd wedi weithio'n agos gydag ystod o bartneriaid i gefnogi cymunedau ymarfer ymchwil, meithrin gallu, rhannu ymarfer a chefnogi gwaith arloesi.

## Adroddiad data'r gweithlu gofal cymdeithasol

Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethon ni gyhoeddi **adroddiad data y gweithlu gofal cymdeithasol**, sy'n rhoi darlun clir o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2021.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ddata gan bob un o'r **22 awdurdod lleol** a **2,173 o leoliadau neu ddarparwyr**.

## Porth data cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol

Ym mis Mai 2022, fe wnaethon ni lansio porth data newydd, sydd â data am ystod o wasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r porth ar gael i bawb, er mai'r prif gynulleidfa yw cynllunwyr, comisiynwyr awdurdodau lleol, ymchwilwyr a phobl sy'n arwain gwasanaethau.

Yn 2023, byddwn ni’n ychwanegu mwy o ddata ar y porth i gefnogi cynllunio'r gweithlu.

## Cymorth arloesi gofal cymdeithasol

Dechreuom ni raglen hirdymor yn edrych ar sut allwn ni gefnogi arloesi gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fe wnaethon ni sefydlu cymuned ymarfer i gefnogi'r defnydd o dystiolaeth wrth ddylunio gwasanaethau gofal cymdeithasol, sydd â mwy na **60 o aelodau**.

## Strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol

Yn ystod y flwyddyn, daethom ni â phartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd i gefnogi datblygiad strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar **strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol 2018 i 2023**, mewn partneriaeth ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Rydyn ni am greu diwylliant lle mae tystiolaeth yn ganolog i gyflawni ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar bob lefel o ofal cymdeithasol. Yn 2023 i 2024, rydyn ni am **glywed eich barn** am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma.